# Hysbysiad Preifatrwydd QAA

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn esbonio sut mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch ('QAA', 'ni' neu 'ein') yn casglu ac yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn unol â'r rheoliad a'r deddfau diogelu data perthnasol. Mae'r hysbysiad hwn yn rhoi gwybodaeth i chi ynglŷn â'ch hawliau a'n rhwymedigaethau, ac yn egluro sut, pam a phryd rydym yn prosesu'ch data personol.

Rydym yn gweithredu fel rheolwr data a / neu brosesydd data wrth brosesu eich data. Mae QAA wedi cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) â'r rhif cofrestru (Z570112X).

Mae ein Swyddog Diogelu Data yn gyfrifol am oruchwylio cydymffurfiaeth diogelu data yn QAA a gellir cysylltu trwy e-bostio governance@qaa.ac.uk neu drwy ffonio +00 44 (0)1452 557000.

## Beth yw data personol?

Data personol yw unrhyw wybodaeth sy'n adnabod unigolyn yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, er enghraifft, eich enw, cyfeiriad e-bost neu rif ffôn. Data personol categori arbennig yw data personol yr ydym yn edrych ar ei ôl yn fwy gofalus oherwydd ei fod yn sensitif, megis manylion am eich hil neu ethnigrwydd, credoau crefyddol neu athronyddol, cyfeiriadedd rhywiol, barn wleidyddol, aelodaeth o undeb llafur, gwybodaeth am eich iechyd a data genetig neu fiometrig. Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth o'r fath, ni fyddwn ond yn gofyn ac yn prosesu cyn lleied ag sy'n angenrheidiol at y diben penodedig, a byddwn yn dynodi sail gyfreithiol ar gyfer gwneud hynny.

## Pa wybodaeth ydyn ni'n ei chasglu

Mae QAA yn prosesu gwybodaeth bersonol i fodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol, rheoliadol, statudol a chytundebol ac i ddarparu gwybodaeth i chi, naill ai am ein cynhyrchion a'n gwasanaethau neu am faterion sydd o fudd i'r cyhoedd. Ni fyddwn yn casglu unrhyw ddata personol diangen gennych, ac ni fyddwn yn prosesu gwybodaeth amdanoch mewn unrhyw ffordd heblaw fel y nodir yn yr hysbysiad hwn heb ddweud wrthych yn gyntaf.

Mae ein gwefannau'n casglu data am ryngweithio gan ddefnyddwyr. Rydym yn partneru â *Miocrosoft Clarity* i nodi sut rydych chi'n rhyngweithio â'n gwefan trwy fertigau ymddygiadol, mapiau-gwres, ac ail-chwarae sesiynau i wella a marchnata ein cynhyrchion/gwasanaethau. Caiff data ynghylch y defnydd o'r wefan ei gipio gan ddefnyddio cwcis parti-cyntaf a thrydydd-parti a thechnolegau olrhain eraill i benderfynu ar boblogrwydd cynhyrchion/gwasanaethau a gweithgaredd ar-lein. Yn ogystal, defnyddiwn y wybodaeth hon i wella'r safle ac at ddibenion diogelwch ac atal twyll. Am fwy o wybodaeth ynglŷn â sut mae Microsoft yn casglu ac yn defnyddio'ch data, ewch i Ddatganiad Preifatrwydd Microsoft.

**Mae QAA yn casglu gwybodaeth bersonol gan y canlynol:**

**ymwelwyr â'n gwefannau**, sy'n cynnwys:

- qaa.ac.uk
- qaa.ac.uk/scotland
- accesstohe.ac.uk
- enhancementthemes.ac.uk
- membershipresources.qaa.ac.uk
- step.ac.uk
- qaa.ac.uk/nmc
- Allrwyd yr Adolygiad.

**Ein haelodau**

- Staff o sefydliadau sy'n Aelodau QAA
- Staff a myfyrwyr o sefydliadau sy'n Aelodau QAA sy'n tanysgrifio i ddiweddariadau'r aelodaeth
- Staff a myfyrwyr o sefydliadau sy'n Aelodau QAA sy'n mynychu un o ddigwyddiadau QAA.
- Staff a myfyrwyr o sefydliadau sy'n Aelodau QAA sy'n cyfrannu at grŵp cynghori neu weithgor cydweithredol QAA
- Staff a myfyrwyr o sefydliadau sy'n Aelodau QAA sy'n cyrchu adnoddau ar gyfer aelodau trwy'r Safle Adnoddau'r Aelodaeth
- Staff a myfyrwyr o sefydliadau sy'n Aelodau QAA sy'n cysylltu â ni gydag ymholiadau'n ymwneud ag aelodaeth.

**Ymholwyr, ymwelwyr, ymatebwyr i arolygon a phobl sydd â buddion**

- Pobl sy'n e-bostio QAA neu'n defnyddio ein ffurflenni i gysylltu â ni
- Pobl sy'n ffonio QAA
- Pobl sy'n cysylltu â QAA drwy'r cyfryngau cymdeithasol
- Pobl sy'n ymateb i arolwg neu ymgynghoriad gan QAA
- Ymwelwyr â swyddfeydd QAA.

**Pobl sy'n arfer hawl statudol**

- Pobl sy'n cysylltu â QAA mewn ynglŷn â chais am fynediad at destun diogelu data
- Pobl sy'n cysylltu â QAA ynghylch prosesu eu data personol
- Pobl yn cwyno am QAA
- Pobl yn gofyn am wybodaeth mewn fformatau amgen.

**Ein cwsmeriaid**

- Pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, yn mynychu digwyddiad QAA neu ddigwyddiad yr ydym yn ei ddarparu ar ran sefydliad arall
- Tanysgrifwyr i Newyddion QAA, Cylchlythyr Gwella Ansawdd, Diweddariad ar gyfer yr Aelodaeth neu ymgyrchoedd marchnata a chylchlythyron eraill
- Pobl sydd wedi rhoi eu caniatâd i ni gysylltu â nhw gyda gwybodaeth a diweddariadau
- Pobl sydd wedi rhoi eu caniatâd i rannu eu stori trwy astudiaeth achos ar ffurf fideo neu'n ysgrifenedig.
- Pobl sydd wedi rhoi eu caniatâd trwy dystlythyr

**Rydym hefyd yn casglu data personol i'n galluogi i gyflawni ein dyletswyddau statudol neu reoliadol neu gyfrifoldebau eraill. Gall hyn gynnwys data personol am:**

- Pobl yn cyflwyno Pryderon ynghylch darparwyr addysg uwch
- Pobl sy'n gweithio tuag at gymwysterau DPP a gynigir gan QAA
- Staff, llywodraethwyr, aelodau cysylltiol, myfyrwyr ac arholwyr allanol mewn darparwyr addysg uwch yr ydym yn eu hadolygu

- Dysgwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer Diploma Mynediad i Addysg Uwch
- Cwynion ynghylch Mynediad i Addysg Uwch.

## Pam mae angen eich data arnom

Rydym yn prosesu gwybodaeth bersonol i fodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol, rheoliadol, statudol a chytundebol, ac i ddarparu gwybodaeth i chi, naill ai am ein cynhyrchion a'n gwasanaethau neu am faterion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd. Ni fyddwn yn casglu unrhyw ddata personol diangen gennych, ac ni fyddwn yn prosesu gwybodaeth amdanoch mewn unrhyw ffordd heblaw fel y nodir yn yr hysbysiad hwn heb ddweud wrthych yn gyntaf.

## Sut byddwn ni'n defnyddio'ch data personol

Mae QAA yn cymryd eich preifatrwydd o ddifrif ac ni fydd byth yn datgelu, rhannu na gwerthu eich data heb yn wybod i chi, oni bai ei bod yn ofynnol i ni wneud hynny dan y gyfraith. Lle rydych chi wedi cydsynio i ni eich darparu â chynigion hyrwyddo a marchnata, mae gennych hawl i dynnu'r caniatâd hwn yn ôl ar unrhyw adeg. Mae manylion ynghylch y dibenion a'r rhesymau dros brosesu'ch data personol isod:

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Diben y prosesu | Galluogi QAA i gyflawni gwasanaethau i'w aelodaeth a darparu gwybodaeth yn effeithiol. |
| Sail gyfreithiol y prosesu | **Erthygl 6(1)(b) GDPR** perfformiad contract<br>Mae angen prosesu er mwyn darparu buddion aelodaeth, fel y gallwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am newyddion, gweithgareddau aelodaeth a digwyddiadau QAA.<br><br>**Erthygl 6(1)(f) GDPR** buddion cyfreithlon<br>Rydym yn defnyddio buddion cyfreithlon fel y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data ein haelodau, gan gynnwys staff a myfyrwyr yn y sefydliadau hynny sy'n Aelodau. |
| Categorïau o ddata personol a gesglir neu a brosesir | Enw<br>Teitl y swydd<br>Cyfeiriad e-bost<br>Rhif ffôn<br>Dewis iaith<br>Delweddau ffotograffig, ffilm, neu fideo o unigolion<br><br>**Data Categori Arbennig**<br>Data sy'n ymwneud â gwybodaeth am anabledd neu ofynion dietegol. |
| Unrhyw unigolyn neu gategorïau o unigolion sy'n derbyn y data personol | Mae QAA yn defnyddio *Intuit Mailchimp* a *JiscMail* (y gwasanaeth gohebiaeth academaidd cenedlaethol) i gynnal rhywfaint o'u cyfathrebiadau trwy'r post (fel cylchlythyrau) a bydd yn rhannu cyfeiriadau e-bost derbynwyr ag *Intuit Mailchimp*. |

| | |
|---|---|
| | Mae QAA yn defnyddio *Salesforce* i anfon gohebiaeth, a bydd yn rhannu cyfeiriadau e-bost derbynwyr â *Salesforce.*<br><br>Bydd manylion personol y rhai sy'n ymateb i arolygon yn cael eu prosesu gan ddarparwr y feddalwedd ar gyfer yr arolwg a ddefnyddir i gasglu eu hymatebion. Rydym yn sicrhau bod y cytundebau sydd gennym ar waith gyda phroseswyr o'r fath yn cynnwys darpariaethau digonol ar gyfer diogelu eich gwybodaeth bersonol, a / neu fod eich data personol yn cael ei brosesu yn unol â'n cyfarwyddiadau ysgrifenedig yn unig, a gallwch ofyn i ni am gael gweld y rhain ar unrhyw adeg.<br><br>Caiff llwyfannau rheoli digwyddiadau QAA eu darparu gan Cvent Europe Cyf (Cvent). Rydym yn rhannu'r data canlynol ag Cvent:<br><br>Gorfodol<br>• E-bost<br>• Enw cyntaf<br>• Cyfenw<br>• Teitl swydd<br>• Sefydliad<br>• Cwestiynau GDPR<br>• Rhif ffôn (dim ond digwyddiadau wyneb-yn-wyneb)<br><br>Dewisol<br>• Cyfeiriad<br><br>Pan fyddwn ni'n cynnal digwyddiad ar ran mudiad arall, byddwn yn rhannu enwau'r cynrychiolwyr sy'n mynychu'r digwyddiad gyda'r mudiad hwnnw.<br><br>Mae QAA hefyd yn casglu enwau, cyfeiriadau e-bost a chyfeiriadau IP at ddibenion podlediadau o weithgareddau adnoddau'r aelodaeth. |
| Manylion trosglwyddiadau i drydedd wlad a mesurau diogelwch | Rydym yn cyfathrebu drwy e-bost gan ddefnyddio *Intuit Mailchimp*, gwasanaeth a ddarperir gan *The Rocket Science Group LLC*, cwmni wedi'i leoli yn Unol Daleithiau America. Er mwyn derbyn Newyddion QAA neu'r Diweddaraf ar gyfer yr Aelodaeth, mae'n bosibl y caiff eich manylion cyswllt eu trosglwyddo i *Intuit Mailchimp* yn UDA. Darllenwch Ddatganiad Preifatrwydd *Intuit Mailchimp* ynghyd â Mailchimp and European Data Transfers \| Mailchimp am fanylion o fesurau *Intuit Mailchimp* ar gyfer diogelu data cwsmeriaid Ewropeaidd a brosesir y tu allan i Ewrop.<br><br>Rydym hefyd yn cyfathrebu â chi gan ddefnyddio Salesforce, gwasanaeth a ddarperir gan Salesforce UK Limited, cwmni wedi'i leoli yn Bishopsgate, Llundain. Pan fyddwch chi'n cofrestru ar gyfer Aelodaeth o QAA, mae'n bosib y caiff eich manylion cysylltu eu trosglwyddo i |

| | |
|---|---|
| | Salesforce yn UDA. Darllenwch [delerau preifatrwydd Salesforce](#).<br><br>**Cvent Europe Cyf**<br><br>Mae Cvent Europe Cyf (Cvent) yn ddarparydd meddalwedd rheoli digwyddiadau i QAA. Er mwyn hwyluso arferion busnes Cvent a darparu eu gwasanaethau, mae'n bosibl y caiff data personol ei gasglu, eu gyrchu, ei drosglwyddo neu ei storio yn yr Unol Daleithiau neu mewn gwledydd eraill ble mae Cvent Europe Cyf yn gweithredu, gan gynnwys gwledydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) y Swistir a'r DU. Mae'n bosibl y caiff data personol ei gyrchu gan staff Cvent sy'n darparu gwasanaethau mewn unrhyw wlad ble mae ganddyn nhw gyfleusterau, neu ble maen nhw'r cyflogi darparwyr gwasanaethau trydydd parti (proseswyr ac is-broseswyr), gan gynnwys India, Awstralia a Singapore. Cyfeiriwch at [Hysbysiad Preifatrwydd Cvent](#).<br><br>Mae QAA yn defnyddio gwasanaethau Buzzsprout ar gyfer cynnal adnoddau Podlediad Aelodau QAA. Mae Buzzsprout yn gwmni sydd wedi'i leoli yn Unol Daleithiau America. Mae Polisi Preifatrwydd Buzzsprout i'w weld [yma](#).<br><br>[Microsoft](#) – a ddibenion prosesu arolygon ar-lein.<br><br>[YouTube](#) – ar gyfer delweddau ar ffilm, fideo neu bodlediad o unigolion at ddibenion marchnata, hyfforddiant neu gydweithredu. |
| Ffynhonnell y data personol | Wedi'i ddarparu gan destun y data neu eu cynrychiolydd awdurdodedig. |
| Cyfnod cadw | Sefydliad sy'n aelod – oes aelodaeth y sefydliad.<br>Cysylltiadau anweithredol – 3 blynedd.<br>Cynrychiolwyr sy'n mynychu'r digwyddiad – 2 flynedd. Mae unrhyw ddata categori arbennig, fel gofynion dietegol neu wybodaeth am anabledd, yn cael ei ddileu cyn gynted ag y bydd y digwyddiad wedi dod i ben.<br>Podlediadau drwy lwyfan Buzzsprout – 5 mlynedd.<br>Delweddau ffotograffig, ffilm, fideo neu bodlediad a gaiff eu cyhoeddi neu eu hargraffu mewn copi caled neu eu cadw'n barhaol. Caiff pob delweddau ffotograffig, ffilm, fideo neu bodlediad eu cadw am 3 blynedd ar ôl gorffen eu defnyddio.<br><br>Arolygon Ar-lein – 12 mis.<br><br>YouTube – fel y nodwyd ar y ffurflen gydsyniad |
| P'un a yw darparu data personol yn rhan o ofyniad neu rwymedigaeth statudol neu gytundebol, a deilliannau posibl yn sgil methu â darparu'r data | Mae prosesu yn angenrheidiol fel rhan o Gytundeb Aelodaeth sefydliad. Os na fyddwch yn darparu eich data personol i ni, mae'n bosib na fyddwn yn gallu cyflawni ein cyfrifoldebau i chi fel Aelodau. |

| | |
|---|---|
| personol | |
| Bodolaeth system wedi'i hawtomeiddio ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan gynnwys proffilio a gwybodaeth am sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, yr arwyddocâd a'r canlyniadau. | Dim. |

| **Ymholwyr, ymwelwyr, ymatebwyr i arolygon a phobl sydd â buddion** | |
|---|---|
| Diben y prosesu | Er mwyn ymateb i ymholiadau gan y cyhoedd, darparu gwasanaethau, darparu sail i'n cynhyrchion a'n gwasanaethau a sicrhau diogelwch ein hymwelwyr. |
| Sail gyfreithiol y prosesu | **GDPR Erthygl 6(1)(f)** Buddiannau cyfreithlon<br>Mae prosesu'n angenrheidiol at ddibenion darparu gwybodaeth i'r cyhoedd; ymateb i ymholiadau gan unigolion; cofnodi'r ymatebion hyn; darparu gwybodaeth a chyngor cyson a chywir; sicrhau diogelwch personol unigolion sy'n mynychu ein hadeilad. |
| Categorïau o ddata personol a gesglir neu a brosesir | Enw<br>Cyfeiriad<br>Teitl y swydd<br>Cyfeiriad e-bost personol<br>Cyflogwr<br>Rhif ffôn<br>E-bost busnes<br>Rhif cofrestru'r car (ymwelwyr)<br>Dewis iaith<br>Prawf adnabyddiaeth ar gyfer ceisiadau am fynediad at bwnc<br>Data personol y mae testun y data yn ei anfon ymlaen at QAA wrth wneud ymholiad. |
| Unrhyw unigolyn neu gategorïau o unigolion sy'n derbyn y data personol | Nid ydym yn rhannu manylion personol ymholwyr.<br><br>Bydd manylion personol y rhai sy'n ymateb i arolygon yn cael eu prosesu gan ddarparwr y feddalwedd ar gyfer yr arolwg a ddefnyddir i gasglu eu hymatebion. Rydym yn sicrhau bod y cytundebau sydd gennym ar waith gyda phroseswyr o'r fath yn cynnwys darpariaethau digonol ar gyfer diogelu eich gwybodaeth bersonol, a / neu fod eich data personol yn cael ei brosesu yn unol â'n cyfarwyddiadau ysgrifenedig yn unig, a gallwch ofyn i ni am gael gweld y rhain ar unrhyw adeg. |

| | |
|---|---|
| | Mae QAA yn defnyddio *Intuit Mailchimp* i gynnal cyfathrebiadau drwy e-bost (e.e. cylchlythyron) a bydd yn rhannu cyfeiriadau e-bost y derbynwyr gydag *Intuit Mailchimp*.<br><br>Byddwn yn rhannu manylion ymwelwyr â'r darparwyr gwasanaethau diogelwch / derbynfa yn ein swyddfeydd. |
| Manylion trosglwyddiadau i drydedd wlad a mesurau diogelwch | Rydym yn cyfathrebu drwy e-bost gan ddefnyddio *Intuit Mailchimp*, gwasanaeth a ddarperir gan *The Rocket Science Group LLC*, cwmni wedi'i leoli yn Unol Daleithiau America. Pan fyddwch chi'n cofrestru i dderbyn Newyddion QAA a'r Cylchlythyr Gwelliant Ansawdd, mae'n bosibl y trosglwyddir eich manylion cyswllt i *Intuit Mailchimp* yn UDA. Darllenwch Ddatganiad Preifatrwydd Intuit Mailchimp. ynghyd â Mailchimp and European Data Transfers \| Mailchimp am fanylion o fesurau *Intuit Mailchimp* ar gyfer diogelu data cwsmeriaid Ewropeaidd a brosesir y tu allan i Ewrop.<br><br>Microsoft – at ddibenion prosesu arolygon ar-lein.<br><br>YouTube – ar gyfer delweddau ar ffilm, fideo neu bodlediad o unigolion at ddibenion marchnata, hyfforddiant neu gydweithredu. |
| Ffynhonnell y data personol | Wedi'i ddarparu gan destun y data neu eu cynrychiolydd awdurdodedig. |
| Cyfnod cadw | Data personol ymholwyr – 12 mis ar gyfer ymholiadau cyffredinol ac ymholiadau yn ymwneud ynghylch Adolygiadau yn Lloegr, Adolygiadau yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, Gweithgareddau yn Ewrop, Gwasanaethau Sicrwydd, Digwyddiadau, Cyllid ac Achredu, Gwasanaethau Rhyngwladol a Phroffesiynol.<br><br>Data personol ymholwyr – 3 blynedd ar gyfer ymholiadau ynghylch Aelodaeth, Mynediad i AU.<br><br>Arolygon Ar-lein – 12 mis.<br><br>YouTube – fel y nodwyd ar y ffurflen gydsyniad |
| P'un a yw darparu data personol yn rhan o ofyniad neu rwymedigaeth statudol neu gytundebol, a deilliannau posibl yn sgil methu â darparu'r data personol | Gall darparu gwybodaeth bersonol fod yn rhan o ofyniad cytundebol os ydych chi'n ymweld â'n swyddfeydd ar ran cyflenwr. Gall darparu gwybodaeth bersonol hefyd fod yn ofyniad statudol, gan y bydd yn ein galluogi i gyflawni ein dyletswyddau iechyd a diogelwch parthed pobl sy'n mynychu ein swyddfeydd. |

| | |
|---|---|
| | Mewn achosion o'r fath, os na fyddwch yn ein darparu â’r wybodaeth hon, mae’n bosibl y gwrthodir mynediad i chi i'n hadeilad. |
| Bodolaeth system wedi’i hawtomeiddio ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan gynnwys proffilio a gwybodaeth am sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, yr arwyddocâd a'r canlyniadau. | Dim. |

| **Pobl sy'n arfer hawl statudol** | |
|---|---|
| Diben y prosesu | Gweithredu hawl statudol yr unigolyn,<br>er enghraifft:<br>• hawl i gael mynediad at wybodaeth drwy ddefnyddio ein gweithdrefn cais am wybodaeth<br>• hawl i gael mynediad at wybodaeth drwy wneud cais am fynediad at bwnc<br>• hawl i gael eich anghofio<br>• hawl i gywiro camgymeriad<br>• hawl i gyfyngu ar brosesu. |
| Sail gyfreithiol y prosesu | **GDPR Erthygl 6(1)(c)** Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol. |
| Categorïau o ddata personol a gesglir neu a brosesir | Enw<br>Cyfeiriad personol<br>Cyfeiriad e-bost personol<br>Rhif ffôn<br>Cyfeiriad e-bost busnes<br>Ffurf o adnabyddiaeth (lle bo angen)<br>Dewis iaith. |
| Unrhyw unigolyn neu gategorïau o unigolion sy’n derbyn y data personol | Byddwn ond yn rhannu eich data lle mae'n ofynnol i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith, neu gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. |
| Manylion trosglwyddiadau i drydedd wlad a mesurau diogelwch | Dim. |
| Ffynhonnell y data personol | Darperir gan yr unigolyn. |
| Cyfnod cadw | Hyd at 3 blynedd ar ôl cau'r cais. |
| P’un a yw darparu data personol yn rhan o ofyniad neu rwymedigaeth statudol neu gytundebol, a deilliannau posibl yn sgil methu â darparu'r data personol | Mae darparu data yn rhan o ofyniad statudol.<br><br>Os na fyddwch yn ein darparu â’ch data, mae’n bosibl na fyddwn yn gallu rhoi'r wybodaeth rydych chi'n gofyn amdani i chi, oni bai ei bod eisoes ar gael yn gyhoeddus. |

| | |
|---|---|
| Bodolaeth system wedi'i hawtomeiddio ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan gynnwys proffilio a gwybodaeth am sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, yr arwyddocâd a'r canlyniadau. | Dim. |

| **Ein cwsmeriaid a Phartneriaid Rhyngwladol** | |
|---|---|
| Diben y prosesu | Galluogi QAA i gynnal gwasanaethau a darparu gwybodaeth yn effeithiol. |
| Sail gyfreithiol y prosesu | **GDPR Erthygl 6(1)(b)** Gweithredu contract. |
| Categorïau o ddata personol a gesglir neu a brosesir | Enw<br>E-bost personol<br>E-bost busnes<br>Rhif ffôn<br>Dewis Iaith<br><br>**Data Categori Arbennig**<br>Data sy'n ymwneud â gwybodaeth am anabledd neu ofynion dietegol. |
| Unrhyw unigolyn neu gategorïau o unigolion sy'n derbyn y data personol | Mae QAA yn defnyddio *Intuit Mailchimp* a *Jiscmail* i gynnal cyfathrebiadau drwy e-bost, a bydd yn rhannu cyfeiriadau e-bost y derbynwyr gydag *Intuit Mailchimp* a *Jiscmail*.<br><br>Yn achos digwyddiadau lle mae ffioedd yn daladwy i QAA, caiff taliadau eu casglu drwy PayPal. I gwblhau'r trafodiad, bydd QAA yn cyrchu data personol, megis enw a chyfeiriad e-bost.<br><br>Mae darparwyr meddalwedd rheoli digwyddiadau QAA fel a ganlyn:<br>• Cvent Europe Cyf (Cvent). |
| Manylion trosglwyddiadau i drydedd wlad a mesurau diogelwch | Rydym yn **cyfathrebu drwy e-bost** gan ddefnyddio *Intuit Mailchimp*, gwasanaeth a ddarperir gan *The Rocket Science Group LLC*, cwmni wedi'i leoli yn Unol Daleithiau America. Pan fyddwch chi'n cofrestru i dderbyn Newyddion QAA neu'r Cylchlythyr Gwelliant Ansawdd, mae'n bosibl y trosglwyddir eich manylion cyswllt i *Mailchimp* yn UDA. Darllenwch Ddatganiad Preifatrwydd Intuit Mailchimp ynghyd â Mailchimp and European Data Transfers \| Mailchimp am fanylion o fesurau *Intuit Mailchimp* ar gyfer diogelu data cwsmeriaid Ewropeaidd a brosesir y tu allan i Ewrop.<br><br>Ar gyfer taliadau am ddigwyddiadau, mae'n bosibl y byddwn yn cyrchu data personol yn ymwneud â thrafodion drwy PayPal. Mae PayPal yn gweithredu mewn sawl gwlad a gall symud data'r tu allan i'r UE. Mae PayPal yn defnyddio darparwyr gwasanaethau trydydd parti i brosesu a storio gwybodaeth yn yr Unol Daleithiau ac mewn gwledydd eraill. Mae PayPal wedi cymryd camau penodol, yn unol â chyfreithiau diogelu data'r UE a'r DU, i ddiogelu data personol. Mae Datganiad |

| | |
|---|---|
| | Preifatrwydd PayPal yn darparu gwybodaeth bellach ynglŷn â throsglwyddo data personol yn rhyngwladol.<br><br>**Cvent Europe Cyf**<br><br>Mae Cvent Europe Cyf (Cvent) yn ddarparydd meddalwedd rheoli digwyddiadau i QAA. Er mwyn hwyluso arferion busnes Cvent a darparu eu gwasanaethau, mae'n bosibl y caiff data personol ei gasglu, eu gyrchu, ei drosglwyddo neu ei storio yn yr Unol Daleithiau neu mewn gwledydd eraill ble mae Cvent Europe Cyf. yn gweithredu, gan gynnwys gwledydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) y Swistir a'r DU. Mae'n bosibl y caiff data personol ei gyrchu gan staff Cvent sy'n darparu gwasanaethau mewn unrhyw wlad ble mae ganddyn nhw gyfleusterau, neu ble maen nhw'r cyflogi darparwyr gwasanaethau trydydd parti (proseswyr ac is-broseswyr), gan gynnwys India, Awstralia a Singapore. Cyfeiriwch at Hysbysiad Preifatrwydd Cvent.<br><br>Microsoft – at ddibenion prosesu arolygon ar-lein.<br><br>YouTube – ar gyfer delweddau ar ffilm, fideo neu bodlediad o unigolion at ddibenion marchnata, hyfforddiant neu gydweithredu. |
| Ffynhonnell y data personol | Darperir gan yr unigolyn neu gan ei gynrychiolydd awdurdodedig. |
| Cyfnod cadw | 6 blynedd ar ôl cwblhau'r contract.<br>Cynrychiolwyr sy'n mynychu'r digwyddiad – 2 flynedd.<br>Mae unrhyw ddata categori arbennig, fel gofynion dietegol neu wybodaeth am anabledd, yn cael ei ddileu cyn gynted ag y bydd y digwyddiad wedi dod i ben.<br>PayPal – 6 blynedd ynghyd â'r flwyddyn gyfredol o ddyddiad y taliad.<br><br>Arolygon Ar-lein – 12 mis.<br><br>YouTube – fel y nodwyd ar y ffurflen gydsyniad |
| P'un a yw darparu data personol yn rhan o ofyniad neu rwymedigaeth statudol neu gytundebol, a deilliannau posibl yn sgil methu â darparu'r data personol | Gall darparu gwybodaeth bersonol fod yn rhan o ofyniad cytundebol os ydych chi'n ymweld â'n swyddfeydd ar ran cyflenwr.<br><br>Gall peidio â'n darparu ni â'ch gwybodaeth arwain at wrthod mynediad i'n hadeilad. |
| Bodolaeth system wedi'i hawtomeiddio ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan gynnwys proffilio a gwybodaeth am sut mae penderfyniadau'n cael eu | Dim. |

| | |
|---|---|
| gwneud, yr arwyddocâd a'r canlyniadau. | |

| **Data personol a gesglir fel rhan o’n dyletswyddau statudol neu gyfrifoldebau rheoliadol.** | |
|---|---|
| Diben y prosesu | Diogelu safonau ac ansawdd addysg uwch y DU lle bynnag y'i darperir ledled y byd. |
| Sail gyfreithiol y prosesu | **GDPR Erthygl 6(1)(e)** Buddiannau cyhoeddus neu weithredu awdurdod swyddogol.<br><br>**GDPR Erthygl 6(1)(f)** Buddiannau cyfreithlon<br>Mae prosesu yn angenrheidiol at ddibenion buddiannau cyfreithlon QAA o ran safonau a sicrhau ansawdd.<br>Mae’n bosib y bydd angen prosesu at ddibenion atal twyll. |
| Categorïau o ddata personol a gesglir neu a brosesir | Enw<br>Cyfeiriad e-bost personol<br>Rhif ffôn<br>Cyfeiriad<br>E-bost busnes<br>Teitl y swydd<br>Hanes cyflogaeth a phrofiad proffesiynol<br>Gwybodaeth am bresenoldeb<br>Graddau academaidd<br>Cymhwysedd iaith<br>Hawl i weithio / astudio<br>Dewis iaith<br>Delweddau ffotograffig, ffilm,<br>fideo, neu bodlediad o unigolion.<br><br>**Data Categori Arbennig**<br>Cenedligrwydd /<br>ethnigrwydd<br>Gwybodaeth am anabledd. |
| Unrhyw unigolyn neu gategorïau o unigolion sy’n derbyn y data personol | Mae’n bosibl y byddwn yn rhannu gwybodaeth a gafwyd yn ystod ein hadolygiad neu weithgaredd arall gyda chyrff eraill, gan gynnwys:<br>• yr Adran Addysg<br>• y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr<br>• y Swyddfa i Fyfyrwyr<br>• yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch<br>• Cyngor Cyllido'r Alban<br>• Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru<br>• Adran yr Economi Gogledd Iwerddon<br>• Adran Amaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon. |

| | |
|---|---|
| | Ni chaiff unrhyw wybodaeth bersonol a rennir yn y cyd-destun hwn ond ei rhannu er mwyn gweithredu bwriad y rhannu. Fel arfer, mae cytundeb rhannu gwybodaeth neu gytundeb i beidio â datgelu yn perthyn i rannu gwybodaeth. |
| Manylion trosglwyddiadau i drydedd wlad a mesurau diogelwch | Ddim yn berthnasol. |
| Ffynhonnell y data personol | Wedi'i ddarparu gan destun y data neu eu cynrychiolydd awdurdodedig.<br><br>Casglwyd yn ystod Adolygiad QAA. |
| Cyfnod cadw | Mae unrhyw wybodaeth bersonol a gesglir yn ystod y gweithgareddau hyn yn cael ei dileu a/neu ei dinistrio'n ddiogel 3 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad adolygu y mae'n perthyn iddo.<br><br>Delweddau ffotograffig, ffilm, fideo neu bodlediad a gaiff eu cyhoeddi neu eu hargraffu mewn copi caled neu eu cadw'n barhaol. Caiff pob delweddau ffotograffig, ffilm, fideo neu bodlediad eu cadw am 3 blynedd ar ôl gorffen eu defnyddio. |
| P'un a yw darparu data personol yn rhan o ofyniad neu rwymedigaeth statudol neu gytundebol, a deilliannau posibl yn sgil methu â darparu'r data personol | Mae angen prosesu ar gyfer cyflawni ein dyletswyddau statudol a rheoliadol.<br><br>Mae methu â darparu data yn peryglu gallu'r QAA i gyflawni'r adolygiad angenrheidiol. |
| Bodolaeth system wedi'i hawtomeiddio ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan gynnwys proffilio a gwybodaeth am sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, yr arwyddocâd a'r canlyniadau. | Dim. |

| **Data personol a gesglir fel rhan o'n cyfrifoldebau statudol neu reoliadol dros ddysgwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer Diploma Mynediad i Addysg Uwch** | |
|---|---|
| Diben y prosesu | Monitro cofrestriad, cyflawniad a dyfarniadau dysgwyr ar draws rhaglenni Mynediad i Addysg Uwch cymeradwy.<br><br>Monitro llwyddiant strategaethau Asiantaethau Dilysu Mynediad wrth hyrwyddo cydraddoldeb cyfle rhwng pobl o wahanol gefndiroedd ethnig neu hiliol, neu wahanol gyflwr o ran iechyd corfforol neu feddyliol.<br><br>Cyfrannu at gyhoeddiadau blynyddol QAA ar |

| | |
|---|---|
| | gyfranogiad a chyflawniad ar gyrsiau Mynediad i Addysg Uwch.<br><br>Mae’n bosib y bydd angen prosesu at ddibenion atal twyll. |
| Sail gyfreithiol y prosesu | **GDPR Erthygl 6(1)(e)** Buddiannau cyhoeddus neu weithredu awdurdod swyddogol. |
| Categorïau o ddata personol a gesglir neu a brosesir | Enw’r Myfyriwr<br>Dyddiad geni<br>Oedran<br>Rhif / Cyfeirnod Unigryw’r Dysgwr<br>Côd post<br>Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma<br>Gwybodaeth am farciau<br>Trawsgrifiad<br>Gwybodaeth am gymwysterau<br>Cyrchfan<br>Ffynhonnell cyllido / statws cyllido<br>Statws o ran budd-daliadau<br>Statws cyflogaeth / cyflogaeth flaenorol<br>Cymhwysedd iaith<br>Dewis iaith<br>Delweddau ffotograffig, ffilm, fideo, neu bodlediad o unigolion.<br>Astudiaethau achos a thystlythyrau ar gyfer cyfweliadau proffil Mynediad i AU<br><br>**Data Categori Arbennig**<br>Ethnigrwydd<br>Rhywedd<br>Gwybodaeth am anabledd<br>Gwybodaeth am Anhawster Dysgu. |
| Unrhyw unigolyn neu gategorïau o unigolion sy’n derbyn y data personol | Mae QAA yn defnyddio *Salesforce* ar gyfer anfon gohebiaeth, a bydd yn rhannu cyfeiriadau e-bost derbynwyr â *Salesforce*.<br><br>Caiff manylion personol y rhai sy’n ymateb i arolygol eu prosesu gan ddarparydd y meddalwedd ar gyfer yr arolwg a ddefnyddiwyd i gasglu eu hymatebion. Rydym yn sicrhau bod y cytundebau sydd gennym ni ar waith â phroseswyr o’r fath yn cynnwys darpariaethau digonol ar gyfer diogelu eich gwybodaeth bersonol, a/neu fod eich data personol ond yn cael ei brosesu’n unol â’ch cyfarwyddiadau ysgrifenedig, a gallwch ofyn i gael gweld y rhain ar unrhyw bryd.<br><br>Darparwyr llwyfan digwyddiadau QAA yw Cvent Europe Cyf (Cvent). Mae’r data gesglir gan  ddarparwyr llwyfan digwyddiadau QAA fel a ganlyn:<br><br>**Gorfodol** |

| | |
|---|---|
| | • E-bost<br>• Enw cyntaf<br>• Cyfenw<br>• Teitl swydd<br>• Sefydliad<br>• Cwestiynau GDPR<br>• Rhif ffôn ar gyfer cysylltu (dim ond ar gyfer digwyddiadau wyneb-yn-wyneb)<br><br>**Dewisol**<br>• Cyfeiriad |
| Manylion trosglwyddiadau i drydedd wlad a mesurau diogelwch | Rydym yn anfon allan cyfathrebiadau gan ddefnyddio Salesforce, gwasanaeth a ddarperir gan Salesforce UK Cyf. Cwmni wedi'i leoli yn Bishopsgate, Llundain. Pan fyddwch chi'n cofrestru ar gyfer Aelodaeth QAA, mae'n bosibl y caiff eich gwybodaeth ar gyfer cysylltu ei throsglwyddo i'r Unol Daleithiau. Darllenwch Delerau Preifatrwydd Salesforce.<br><br>**Cvent Europe Cyf**<br><br>Mae Cvent Europe Cyf (Cvent) yn ddarparydd meddalwedd rheoli digwyddiadau i QAA. Er mwyn hwyluso arferion busnes Cvent a darparu eu gwasanaethau, mae'n bosibl y caiff data personol ei gasglu, eu gyrchu, ei drosglwyddo neu ei storio yn yr Unol Daleithiau neu mewn gwledydd eraill ble mae Cvent Europe Cyf yn gweithredu, gan gynnwys gwledydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) y Swistir a'r DU. Mae'n bosibl y caiff data personol ei gyrchu gan staff Cvent sy'n darparu gwasanaethau mewn unrhyw wlad ble mae ganddyn nhw gyfleusterau, neu ble maen nhw'r cyflogi darparwyr gwasanaethau trydydd parti (proseswyr ac is-broseswyr), gan gynnwys India, Awstralia a Singapore. Cyfeiriwch at Hysbysiad Preifatrwydd Cvent. |
| Ffynhonnell y data personol | Darparwyd gan Asiantaeth Cyllido Addysg a Sgiliau, Adran Addysg.<br><br>Asiantaethau Dilysu Mynediad sydd wedi'u trwydddedu gan QAA Darparwyr sydd wedi'u cofrestru ar Gofrestr y DU o Ddarparwyr Dysgu. |
| Cyfnod cadw | Dim mwy na 12 mis o'i dderbyn, neu ar ôl cwblhau'r pwrpas.<br><br>Delweddau ffotograffig, ffilm, fideo neu bodlediad a gaiff eu cyhoeddi neu eu hargraffu mewn copi caled neu eu cadw'n barhaol. Caiff pob delweddau ffotograffig, ffilm, fideo neu bodlediad eu cadw am 3 blynedd ar ôl gorffen eu defnyddio. |

| | |
|---|---|
| | Caiff cyfweliadau proffil Mynediad i AU sy’n cael eu cyhoeddi neu eu hargraffu ar ffurf copi caled eu cadw’n barhaol. Pob cyfweliadau proffil Mynediad i AU eraill am 3 blynedd ar ôl gorffen eu defnyddio. |
| P’un a yw darparu data personol yn rhan o ofyniad neu rwymedigaeth statudol neu gytundebol, a deilliannau posibl yn sgil methu â darparu'r data personol | Mae angen prosesu ar gyfer cyflawni ein dyletswyddau statudol a rheoliadol.<br><br>Mae methu â darparu data yn peryglu gallu'r QAA i gyflawni'r adolygiad angenrheidiol. |
| Bodolaeth system wedi’i hawtomeiddio ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan gynnwys proffilio a gwybodaeth am sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, yr arwyddocâd a'r canlyniadau. | Dim |

## Cadw eich data personol

Rydym yn cadw eich gwybodaeth bersonol yn unol â gofynion GDPR, sy’n ein gorfodi i’w chadw dim ond cyhyd ag y bo angen. Mae gan QAA bolisi ar gadw gwybodaeth. Os nad angen i ni gadw gwybodaeth bersonol am resymau busnes, rheoleiddiol neu gyfreithiol, byddwn yn ei dileu.

## Defnyddio Cwcis

Ffeiliau testun bach yw cwcis, sy'n cael eu gosod ar eich cyfrifiadur gan wefannau y byddwch chi’n ymweld â nhw. Fe'u defnyddir yn helaeth er mwyn gwneud i wefannau weithio, i gofio eich gosodiadau a'ch dewisiadau unigol, ac i fesur sut rydych chi'n defnyddio gwefannau er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu'ch anghenion.

Mae manylion am ba gwcis y mae QAA yn eu defnyddio, pam rydym yn eu defnyddio a beth sydd angen i chi ei wneud os nad ydych yn dymuno derbyn rhai neu bob un ohonynt ar gael yn y Datganiad Cwcis gan QAA.

## Sut byddwn ni'n diogelu'ch data personol

Mae gennym fesurau diogelwch priodol ar waith i atal data personol rhag cael ei golli’n ddamweiniol, neu rhag cael ei ddefnyddio neu gael mynediad ato mewn ffordd heb ei hawdurdodi. Rydym yn cyfyngu mynediad at eich data personol i'r rhai sydd ag angen busnes gwirioneddol i'w weld. Bydd y rhai sy’n prosesu eich data personol yn gwneud hynny mewn modd awdurdodedig yn unig, ac maent yn destun dyletswydd cyfrinachedd.

Mae gennym hefyd weithdrefnau ar waith i ymdrin ag unrhyw amheuaeth o weithredu’n groes i reolau diogelwch data. Byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr cymwys am amheuaeth o dorri rheolau diogelwch data lle mae'n ofynnol dan y gyfraith i ni wneud hynny.

Caiff data am ryngweithio gan ddefnyddwyr trwy *Microsoft Clarity* ei gadw ar ffurf ddienw. Caiff unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i’ch adnabod yn bersonol ei chadw’n gudd.

## Eich hawliau

Os yw QAA yn prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi, mae gennych chi'r hawl i gael mynediad at y wybodaeth honno, ac i ofyn am wybodaeth ynghylch y canlynol dan gyfraith diogelu data:

- pa ddata personol sydd gennym amdanoch chi
- dibenion y prosesu
- y categorïau o ddata personol dan sylw
- y sawl y mae'r data personol wedi neu'n mynd i gael ei ddatgelu iddynt
- am ba hyd yr ydym yn bwriadu storio eich data personol
- os na chasglwyd y data yn uniongyrchol gennych chi, gwybodaeth am y ffynhonnell.

Mewn rhai achosion, os ydych chi'n credu ein bod ni'n cadw unrhyw ddata anghyflawn neu anghywir amdanoch chi, mae gennych chi'r hawl i ofyn i ni gywiro a / neu gwblhau'r wybodaeth, a byddwn yn gwneud pob ymdrech i wneud hynny cyn gynted â phosibl; oni bai bod rheswm dilys dros beidio â gwneud hynny, a byddwn yn eich hysbysu bryd hynny.

Mae hefyd yn bosibl y bydd gennych chi'r hawl i ofyn am ddileu eich data personol neu'r hawl i gyfyngu ar brosesu (lle bo hynny'n berthnasol) yn unol â'r gyfraith ar ddiogelu data; yn ogystal â gwrthwynebu unrhyw farchnata uniongyrchol gennym ni. Lle bo hynny'n berthnasol, mae gennych hawl i gael eich data wedi'i gludo a'r hawl i gael eich hysbysu am unrhyw system wedi'i hawtomeiddio ar gyfer gwneud penderfyniadau y gallwn ei defnyddio.

Os hoffech **arfer** unrhyw un o'r hawliau hyn, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â ni:

- Trwy e-bost: governance@qaa.ac.uk
- Ffôn: +00 44 (0) 1452 557000
- Trwy'r post: Governance Team, QAA, Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB.

Os derbyniwn gais gennych i arfer unrhyw un o'r hawliau uchod, gallwn ofyn i chi gadarnhau pwy ydych chi cyn gweithredu ar y cais; mae hyn er mwyn sicrhau bod eich data yn cael ei amddiffyn a'i gadw'n ddiogel.

# Gwneud cwyn

Nid yw QAA ond yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn unol â'r hysbysiad preifatrwydd hwn, ac yn unol â'r deddfau diogelu data perthnasol.

Os oes gennych unrhyw bryderon am ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol, gallwch wneud cwyn i ni drwy gysylltu â:

**Y Swyddog Diogelu Data**
QAA Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
+00 44 (0) 1452 557000
governance@qaa.ac.uk

Gallwch hefyd gwyno i'r awdurdod goruchwylio, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) os ydych yn anhapus gyda sut rydym wedi defnyddio eich data. Cyfeiriad yr ICO yw:

**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,**
Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Caer, SK9 5AF
Rhif Llinell Gymorth: 0303 123 1113
Gwefan: [https://ico.org.uk/concerns/handling](https://ico.org.uk/concerns/handling)

Diweddarwyd ddiwethaf – Gorffennaf 2025

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch 2025
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 a SC037786

Ffôn: 01452 557135 (Cymraeg) 01452 557000 (English)
Gwefan: [www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)